GIG CYMRU NHS WALES | Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan University Health Board

# Diweddariad am y brechlyn
# Vaccination Update






*Cylchlythyr Wythnosol* *Weekly Newsletter* CYHOEDDIAD 24: wythnos **28/06/2021**

## Cynnydd Wythnosol (21 - 28 Mehefin)



**Rydym bellach wedi brechu 87% o boblogaeth oedolion y Bwrdd Iechyd gyda dosau cyntaf wedi'u cynnig i bawb 18 oed a hŷn.**
Rydym hefyd yn gwneud cynnydd da gyda'r ail ddosau gyda 74% o bobl o 40-49 mlwydd oed wedi'u brechu'n llawn.

## Ddim yn gadael unrhyw un ar ôl...

Roedd y sesiynau galw i mewn ar ddydd Sadwrn 26ain Mehefin yn hynod lwyddiannus gyda 519 o bobl yn mynd i'r ganolfan yng Nghasnewydd a 287 yn mynd i'r ganolfan yng Nglynebwy. Oherwydd llwyddiant y sesiynau hyn, rydym yn cynnal sesiynau cerdded i mewn ychwanegol ar Ddydd Sadwrn 3ydd Gorffennaf yng Nghanolfannau Hamdden Casnewydd a Threcelyn. Mae'r clinigau galw heibio hon ar gyfer dos cyntaf yn unig ac meant yn agored i unrhyw un 18 oed a hŷn gan y bydd brechlynnau Pfizer ac AstraZeneca ar gael. Nid oes rhaid trefnu apwyntiad, ond bydd angen i chi ddod â'ch ID gyda chi.




**Dydd Sadwrn 3 Gorffennaf**
**Canolfan Hamdden Casnewydd** **8.30am - 4.00pm**
1 Canolfan Ffordd y Brenin, Casnewydd, NP20 1UH
**Canolfan Hamdden Trecelyn** **8.30am - 1.30pm**
Strŷd y Bont, Trecelyn NP11 5FE

## Clinigiau Alergedd Brechlyn

I'r rhai sy'n disgwyl apwyntiad ar hyn o bryd o Ysbyty Athrofaol y Faenor i gael eu brechlyn Covid oherwydd alergeddau, dylai fod rhywun wedi cysylltu â chi yn uniongyrchol erbyn hyn gyda diweddariad ynghylch eich apwyntiad. Cysylltir â'r bobl nad ydynt wedi clywed dim eto yn fuan. Os ydych angen siarad ag aelod staff yn uniongyrchol am gael eich brechlyn Covid oherwydd alergeddau, cysylltwch â **Sian Williams, Dydd Llun-Gwener rhwng 9am a 5pm, ar 07583100775.**

## FFIGYRAU BRECHU

(hyd at 28/06/2021)

**Cyfanswm nifer y brechlynnau Covid-19 wedi eu rhoi ar draws ardal ein Bwrdd Iechyd (cyfuniad o'r dos cyntaf a'r ail ddos)**

# 751,740

Cyfanswm y dos cyntaf 429,564

Cyfanswm yr ail ddos 322,176

| Grŵp | Dos cyntaf | Ail ddos |
|---|---|---|
| Pobl 65 oed a'n hŷn | 96% | 95% |
| Grŵp 6 (Agored i Niwed) | 90% | 83% |
| Pobl 60-64 mlwydd oed | 94% | 92% |
| Pobl 55-59 mlwydd oed | 92% | 89% |
| Pobl 50-54 mlwydd oed | 90% | 85% |
| Pobl 40-49 mlwydd oed | 86% | 74% |
| Pobl 30-39 mlwydd oed | 78% | 29% |
| Pobl 18-29 mlwydd oed | 75% | -- |

## Ail ddosau...

**Mae'r dos 1af o'r brechlyn Covid yn rhoi amddiffyniad o tua 25-36% yn erbyn yr amrywiolyn Delta, ac yn amddiffyn pobl rhag bod yn symptomatig. Mae'r 2il ddos yn codi'r lefel o amddiffyniad i 77-82%. Felly mae'n bwysig iawn eich bod yn cael y ddau ddos o'r brechlyn Covid i gael yr amddiffyniad gorau.**

Ar hyn o bryd, rydym yn brechu rhai 35-39 oed gyda'u 2il ddos a bydd y rhai 30-34 oed yn dechrau derbyn eu gwahoddiad i gael yr 2il ddos dros yr wythnosau nesaf.

Bydd unrhyw un dros 40 oed yn cael yr ail ddos o fewn 8 wythnos.
Os cawsoch eich dos 1af o Pfizer rhwng 7 Rhagfyr 2020 – 30 Ebrill 2021 ac nad ydych wedi cael gwahoddiad ar gyfer eich ail ddos eto, llenwch y ffurflen ganlynol ar ein gwefan:
https://abuhb.nhs.wales/coronavirus/covid-19-vaccine/overdue-pfizer-second-dose/

Os cawsoch eich dos cyntaf o AstraZeneca rhwng 4 Ionawr 2021 – 30 Ebrill 2021 ac nad ydych wedi cael gwahoddiad ar gyfer eich ail ddos eto, cwblhewch y ffurflen ganlynol ar ein gwefan:
https://abuhb.nhs.wales/coronavirus/covid-19-vaccine/overdue-astrazeneca-second-dose/



## Rhannwch eich stori, nid y feirws

Rhannwch eich bod wedi cael eich brechlyn Covid ar eich Instagram stories! Byddwn ni'n ail-rannu'r stori ar ein sianel ni a bydd y llun gorau'n cael taleb Amazon gwerth £50.
**Tagio ni @aneurinbevanuhb**
**Hashnod #ABUHBvaccine**

**Disgwyliwch nes ar ôl i chi adael y ganolfan frechu i dynnu lluniau!

**Ymunwch â'r miloedd sydd wedi cael eu brechu...**
**Ffoniwch 0300 303 1373 a byddwch yn cael cynnig apwyntiad dos cyntaf o fewn 72 awr.**

Am ragor o wybodaeth, ac i ganfod ym mha grŵp blaenoriaeth ydych chi, ewch i: https://www.gov.uk/government/publications/priority-groups-for-coronavirus-covid-19-vaccination-advice-from-the-jcvi-30-december-2020

Cyhoeddir ffigyrau brechu dyddiol gan Iechyd Cyhoeddus ar eu gwefan: https://public.tableau.com/profile/public.health.wales.health.protection#!/vizhome/RapidCOVID-19virology-Public/Headlinesummary

Mwy a wybodaeth a Chwestiynau Cyffredin ar ddarpariaeth, cymhwysedd a diogelwch y brechiad, ewch i: https://phw.nhs.wales/topics/immunisation-and-vaccines/covid-19-vaccination-information/about-the-vaccine/

### Mythau am Ffrwythlondeb

Mae brechlynnau COVID wedi cael eu rhoi i filiynau o fenywod heb unrhyw dystiolaeth o broblemau ffrwythlondeb. Hefyd nid oes unrhyw ffordd y mae gwyddonwyr yn gwybod amdanynt y gallai brechlynnau effeithio ar ffrwythlondeb, ac nid oes unrhyw frechlynnau sy'n effeithio ar ffrwythlondeb. Gallwch drafod unrhyw bryderon sydd gennych am hyn gyda'ch gweithiwr gofal iechyd proffesiynol.

Mae rhagor o wybodaeth am frechlynnau COVID-19 a ffrwythlondeb ar gael gan Goleg Brenhinol yr Obstetryddion a'r Gynaecolegwyr.
Mae brechlynnau COVID wedi cael eu rhoi i filiynau o ddynion heb unrhyw dystiolaeth o broblemau ffrwythlondeb.

Nid oes yna unrhyw dystiolaeth ar hyn o bryd i awgrymu bod y brechlyn yn effeithio ar ffrwythlondeb dynion.

Siaradwch â'ch gweithiwr gofal iechyd lleol os oes gennych unrhyw bryderon.

Darllenwch wybodaeth am frechlynnau COVID-19 a ffrwythlondeb gan Gymdeithas Ffrwythlondeb Prydain (BFS) a'r Gymdeithas Gwyddonwyr Atgenhedlu a Chlinigol (ARCS)

Mae data'n destun adolygiad gan fod mewnbynnu data a gwiriadau ansawdd data'n cael eu cynnal.